# Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad mewn teledu a radio: 2021-22

Adroddiad ar wyth o ddarlledwyr mwyaf y DU

Dyddiad cyhoeddi: 2 Tachwedd 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

2. Y rhifau – 2021-22 2

## Atodiad

A1. Tabl data cryno - darlledwyr unigol 4

# 1. Trosolwg

Bob blwyddyn, rydym yn cywain data gan ddarlledwyr ar gyfansoddiad eu gweithluoedd. Yn 2022, gwnaethom ohirio ein proses adrodd arferol i ailwampio ein hymagwedd at gywain data.[1] Roedd rhai o'r darlledwyr mwyaf eisiau darparu data yn wirfoddol er mwyn sicrhau momentwm a chysondeb, felly ar gyfer adroddiad eleni, rydym wedi canolbwyntio ar sut mae'r darlledwyr hyn wedi perfformio o'i gymharu â'r llynedd ac â'i gilydd, yn hytrach nag â'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.[2] Rydym hefyd yn falch o allu adrodd, am y tro cyntaf, ar ddata amrywiaeth yn ôl ardal ddaearyddol, sydd wedi'i ddarparu gan y BBC.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau allweddol ar gyfer yr wyth darlledwr a ddarparodd ddata ar gyfer 2021-22 ar draws ystod o nodweddion – rhyw, hil a chefndir ethnig, anabledd, tueddfryd rhywiol, oedran, crefydd neu gred, a chefndir economaidd-gymdeithasol.

Bydd ein proses cywain ac adrodd arferol yn ailddechrau y flwyddyn nesaf, gan ddefnyddio ein holiadur data meintiol wedi'i ddiweddaru, a byddwn yn adrodd yn 2023 ar werth dwy flynedd o ddata.

[1] Cafodd yr holl ddarlledwyr wybod fod angen iddynt barhau i gywain a chadw 2021-22 i'w gyflwyno ochr yn ochr â 2022/23 yn 2023. Bydd Ofcom yn adrodd ar ddata dwy flynedd yn 2023.

[2] Y darlledwyr a ddarparodd ddata oedd Bauer, y BBC (Gwasanaethau Cyhoeddus y DU), Channel 4, Global, ITV, Paramount (sy'n cynnwys Channel 5), S4C, ac STV.

# 2. Y rhifau – 2021-22

## Cefndir

2.1 Rydym yn adrodd yma ar ddata wyth o'r darlledwyr mwyaf sy'n cynrychioli tua 90% o weithwyr darlledu'r DU - Bauer, y BBC (Gwasanaethau Cyhoeddus y DU), Channel 4, Global, ITV, Paramount (sy'n cynnwys Channel 5), S4C a STV. Er na allwn dracio cynnydd y diwydiant ehangach yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol, mae'r data hwn yn parhau i roi mewnwelediadau gwerthfawr a gallwn adrodd ar sut mae'r darlledwyr hyn wedi perfformio, o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac â'i gilydd. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn ailddechrau ein proses cywain ac adrodd arferol, a bydd gofyn i ddarlledwyr ddarparu data ar gyfer 2021-22 a 2022-23.

2.2 Eleni, fe wnaeth y BBC ein cyfeirio at y data a gyflwynwyd ganddi i Ofcom ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Mae'r data ar gyfer holl weithlu Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU ac nid yw'n darparu dadansoddiadau ar wahân ar gyfer gwasanaethau teledu'r BBC a gwasanaethau radio'r BBC.[3] O ganlyniad, nid yw'n bosib gwneud cymhariaeth uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn o amrywiaeth y BBC ar lefel teledu neu radio. Mae hefyd yn golygu, er i ni allu mesur perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC o'i gymharu â'r darlledwyr eraill, unwaith eto, ni allwn dorri hyn i lawr i lefel teledu neu radio. Nid yw'r data sydd ar gael gan y BBC eleni yn cynnwys pobl sydd wedi ymuno a gadael, y gweithwyr hynny a gafodd ddyrchafiad, na'r rhai a dderbyniodd hyfforddiant.[4]

2.3 Mae'r BBC wedi darparu data amrywiaeth ar gyfer y gweithlu yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn data amrywiaeth y gweithlu yn ôl ardal ddaearyddol. Fel y nodwyd yn ein hadolygiad Pum mlynedd, mae data amrywiaeth ddaearyddol yn taflu goleuni ar gyfansoddiad eu gweithlu ar draws y DU ac yn galluogi i ddarlledwyr ddeall sut mae amrywiaeth eu staff yn amrywio ar draws y DU. Rydym yn croesawu'r cam hwn gan y BBC ac yn annog darlledwyr eraill yn gryf i ddilyn eu hesiampl.

## Nodi tangynrychiolaeth

2.4 Rôl Ofcom yw monitro'r diwydiant darlledu yn ei gyfanrwydd a sicrhau bod darlledwyr yn bodloni amodau eu trwydded. Mae meincnodau'n offeryn cymharu sy'n ein helpu i ddeall a yw gweithluoedd darlledwyr yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth oedran gweithio'r DU yn fwy cyffredinol. Mae Ffigur 1 isod yn nodi meincnodau poblogaeth oedran gweithio y DU yr ydym wedi cyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn.

[3] Nododd y BBC ei ddewis o ran darparu data gweithlu teledu a radio cyfunol yn ei hymateb i'n Cais am Fewnbwn i adolygu ein Harolygon Gweithlu Amrywiaeth mewn Darlledu.

[4] Mae hyn oherwydd i'r data a ddarparwyd gan y BBC ar gyfer 2021-22 gael ei gyflwyno wrth ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth a anfonwyd gan Ofcom fel rhan o'n proses fonitro flynyddol ehangach ar gyfer y BBC ac nid mewn ymateb i holiadur gwirfoddol eleni ar ddata amrywiaeth darlledwyr.

**Ffigur 1: Meincnodau poblogaeth oedran gweithio'r DU**

| Nodwedd | Meincnod poblogaeth oedran gweithio'r DU |
|---|---|
| **Rhyw** *(Ystadegau marchnad Lafur ONS A09: Statws marchnad lafur yn ôl grŵp ethnig). 16+ oed, Ebrill 21-Mawrth 22).* | 52% gwrywaidd<br>48% benywaidd |
| **Grŵp hil** *(Ystadegau marchnad Lafur ONS A09: Statws marchnad lafur yn ôl grŵp ethnig).* 16-64 oed mewn cyflogaeth. *Ebrill 21-Mawrth 22.* | 87 % gwyn ethnig<br>13% lleiafrifoedd ethnig |
| **Anabledd** *(Ystadegau marchnad Lafur ONS A08: Statws pobl anabl yn y farchnad lafur). Poblogaeth oedran gweithio, Ebrill 21-Mawrth 22.* | 79% ddim yn anabl<br>21% yn anabl |
| **Oedran** *(Ystadegau marchnad Lafur ONS Tabl A05: Marchnad lafur yn ôl grŵp oedran: Pobl yn ôl gweithgarwch economaidd ac oedran, wedi'u haddasu'n dymhorol). Y rhai mewn cyflogaeth, Ebrill 21-Mawrth 22.* | 68% dan 50 oed<br>32% 50+ oed |
| **Tueddfryd rhywiol (***Cyfeiriadedd Rhywiol ONS, DU: 2019. Noder bod amcangyfrifon o ffynonellau eraill yn amrywio[5]). Poblogaeth oedran gweithio.* | 96% heterorywiol<br>4% LHD |
| **Crefydd**<br>*(Arolwg Agweddau Cymdeithasol NatCen 36, 2018). Poblogaeth Prydain 16+ oed.* | 52% dim crefydd<br>48% crefyddol |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – swydd rhieni**<br>*(Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Bridge Group Ionawr 2017). Unigolion rhwng 25 a 60 oed.* | 33% proffesiynau<br>38% canolradd<br>29% dosbarth gweithiol |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – ysgol a fynychwyd**<br>*(Adroddiad Sutton Trust Leading People 2016). Pobl mewn cyflogaeth.* | 7% ysgol breifat |

[5] Er enghraifft, mae Stonewall yn cyfeirio at amcangyfrifon o 5-7%.

## Sbotolau ar y data eleni

2.5 Mae Ffigur 2 isod yn dangos sut mae cyfansoddiad gweithluoedd cyfunol yr wyth darlledwr yn cymharu â'r boblogaeth oedran gweithio genedlaethol.

**Ffigur 2: Gweithluoedd darlledwyr o'u cymharu â'r boblogaeth oedran gweithio cenedlaethol[6] - Pob darlledwr (Bauer, Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, Channel 4, Global, ITV, Paramount, S4C, STV)**

| Nodwedd | Holl lefelau swydd | | Uwch reolwyr | | Dyrchafiadau[7] | | Data gweladwy[8] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 21/22 | Newid o flwydd yn i flwydd yn | 21/22 | Newid o flwydd yn i flwydd yn | 21/22 | Newid o flwydd yn i flwydd yn | 21/22 | Newid o flwydd yn i flwydd yn |
| **Menywod** | 49%** | → | 46%* | ↑ 1% | 57%** | ↑ 1% | 100% | → |
| **Grŵp Lleiafrifol Ethnig** | 15%** | ↑ 2% | 11%* | ↑2% | 13%** | ↓ 2% | 90% | ↓ 5% |
| **Anabl** | 9%* | → | 8%* | → | 9%* | ↑ 1% | 86% | ↓ 4% |
| **LHD** | 10%** | ↑ 2% | 8%** | ↑ 1% | 8%** | ↓ 3% | 89% | ↓ 2% |
| **50+ oed** | 26%* | ↑ 1% | 46%** | ↑ 2% | 7%* | ↑ 1% | 99% | ↓ 1% |
| **Crefydd** | 35%* | ↓ 1% | 44%* | ↑ 2% | 36%* | ↑ 6% | 79% | ↓ 4% |

| |
|---|
| * yn nodi bod y gyfran islaw'r meincnod ar gyfer poblogaeth oedran gweithio'r DU |
| ** yn nodi bod y gyfran ar neu uwchben y meincnod ar gyfer poblogaeth oedran gweithio'r DU |
| Mae saethau'n dangos a yw'r gyfran wedi codi, disgyn neu aros yr un peth ers 2020-21 |

## Rhyw

2.6 Wrth edrych ar yr wyth darlledwr gyda'i gilydd, mae cyfran y menywod a gyflogir yn adlewyrchu poblogaeth oedran gweithio'r DU yn eithaf agos (48% ohonynt yn fenywod), ychydig yn uwch ar lefel holl weithwyr (49%), ac ychydig yn is na lefel uwch reoli (46%). Mae hyn yn amlwg yn Bauer, lle mae menywod yn cynrychioli dim ond 38% o uwch

[6] Mae data ar gyfer pob darlledwr a ddarparodd ddata ar gyfer 2021-22 i'w weld yn Atodiad 1.
[7] Ni ddarparodd y BBC ddata ar gyfer dyrchafiadau yn 2021-22.
[8] Mae data gweladwy yn ddata y mae cyflogwr wedi gofyn amdano gan weithiwr, y mae gweithiwr wedi'i ddatgelu i'w gyflogwr, ac mae'r gweithiwr wedi rhoi cydsyniad i'w rannu ag Ofcom.


reolwyr, 7 pwynt canrannol y tu ôl i'r darlledwr gyda'r gynrychiolaeth isaf nesaf o fenywod mewn rolau uwch (ITV).

## Hil a chefndir ethnig

2.7 Cynyddodd cynrychiolaeth gyffredinol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig 2 bwynt canrannol ar draws yr wyth darlledwr i 15% o weithwyr, sy'n fwy na meincnod poblogaeth y DU (13%) ond mae'n parhau islaw meincnodau ar gyfer y dinasoedd mawrion lle mae gan nifer o'r darlledwyr hyn bresenoldeb cryf (e.e. Llundain ar 37% a Manceinion ar 28%[9]). Yn 2021-22, roedd cynnydd o 2 bwynt canrannol o flwyddyn i flwyddyn hefyd yng nghynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ar lefel uwch reolwyr, gan godi i 9% ar draws yr wyth darlledwr gyda'i gilydd. Mae angen gwelliant parhaus i gynrychioli'r boblogaeth oedran gweithio yn llawn ar lefel uwch reoli. O'r wyth, roedd gan Paramount y gyfran fwyaf o weithwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ar lefel yr holl weithwyr (25%) ac ar lefel uwch reoli (17%), tra bod gan Bauer y gynrychiolaeth isaf o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn rolau uwch, sef 2%.

2.8 Nid yw'n bosib deall cyfansoddiad yr wyth darlledwr hyn os ystyriwn gydweithwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fel un grŵp homogenaidd. Er enghraifft, pan edrychwn ar y ffigurau dadansoddi ar gyfer 2021-22 gallwn weld bod cyfran y gweithwyr Du yn 4% ar lefel yr holl weithwyr a 2% ar lefel uwch reoli, o'i gymharu â 3% o'r holl bobl sy'n gweithio yn y DU.[10] Ar gyfer gweithwyr Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshi, mae cynrychiolaeth yn gweddu i boblogaeth oedran gweithio'r DU (5%) ar lefel yr holl weithwyr ac uwch reolwyr.

**Ffigur 3: Dadansoddiad o weithwyr yn ôl grŵp lleiafrifol ethnig penodol, 2021-22**[11]




## Anabledd

2.9 Mae pobl anabl yn parhau i gael eu tangynrychioli'n sylweddol ar draws gweithluoedd yr wyth darlledwr yn 2021, wrth gael eu hystyried gyda'i gilydd ac yn unigol. Roedd gweithwyr anabl yn cynnwys 9% o weithwyr ar lefel pob gweithiwr ac 8% o uwch reolwyr, o'i gymharu â 21% o boblogaeth oedran gweithio y DU. Mae'n rhaid i bob un o'r wyth

---

[9] Meincnod: Arolwg Poblogaeth Flynyddol ONS – NomisWeb. Tabl T05 Gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig a chenedligrwydd. Pawb mewn cyflogaeth, rhwng 16-64 oed.
[10] Ystadegau marchnad Lafur ONS. A09: Statws marchnad lafur yn ôl grŵp ethnig. 16-64 oed mewn cyflogaeth.
[11] Nid yw'r data ar ethnigrwydd y rhai a ddyrchafwyd yn 2021-22 yn cynnwys y BBC.

darlledwr barhau i gymryd camau i wella cynrychiolaeth pobl anabl ar draws eu sefydliadau, yn ogystal â chynyddu maint y data a gesglir ar anableddau i helpu i greu darlun cywir o'u gweithluoedd fel y gallant nodi'n well y ffordd orau o gefnogi a chadw eu staff.

## Tueddfryd rhywiol

2.10 Mae ein data'n dangos bod y gynrychiolaeth ar gyfer cydweithwyr LHD[12] yn uwch na lefel poblogaeth oedran gweithio'r DU (4%) ar draws yr wyth darlledwr yn 2021-22, sef 10%. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer pob un o'r darlledwyr unigol. Er enghraifft, mae 10% o weithwyr yn Channel 4 yn nodi eu bod yn LHD ar lefel yr holl weithwyr ac ar lefel uwch reoli. Roedd Bauer, Global, ITV a STV i gyd hefyd yn uwch na'r meincnod poblogaeth oedran gweithio ar gyfer cynrychiolaeth LHD ymhlith uwch reolwyr.

2.11 O ystyried diffyg meincnodau cynrychioliadol cenedlaethol cyson ar dueddfryd rhywiol, rydym yn annog darlledwyr i barhau i gywain data a gweithio gyda'u gweithwyr a'u rhwydweithiau staff i ddeall eu gweithluoedd unigol a phrofiadau cydweithwyr LHDTC+ yn well.

## Oedran

2.12 Mae oedran yn parhau i fod yn un o'r nodweddion y mae gennym lawer iawn o ddata gweladwy ar ei gyfer. Gallwn weld bod gweithluoedd y darlledwyr hyn yn tueddu i fod yn iau na phoblogaeth oedran gweithio'r DU yn fwy cyffredinol (lle mae 32% o bobl yn 50 oed neu'n hŷn). O'r wyth darlledwr, dim ond Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU sy'n cynrychioli'r grŵp hwn yn llawnach, gyda 31% o'i weithlu yn 50+ oed. Ar draws yr wyth, fodd bynnag, mae cynrychiolaeth uwch o bobl 50+ oed mewn rolau uwch reoli. Er enghraifft, er mai dim ond un o bob deg o weithlu cyffredinol Global sy'n 50+ oed, maent yn cynrychioli 22% o uwch reolwyr.

## Crefydd neu gred


2.13 Mae pobl sydd yn dilyn crefydd neu gred benodol yn ffurfio 35% o'r gweithlu ar draws yr wyth darlledwr, sydd islaw lefel y gynrychiolaeth yn y boblogaeth ehangach ar 48%. Ar lefel uwch reoli, mae cyfran y gweithwyr sy'n dilyn crefydd neu gred benodol yn cynyddu. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ddata anhysbys o hyd am grefydd a chred, a hoffem weld darlledwyr yn ymdrin â'r bwlch hwn yn y data.

[12] Hyd yn hyn, wrth ofyn am ddata meintiol gan ddarlledwyr rydym wedi defnyddio'r acronym "LHD" (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol) yn lle "LHDT", "LHDTC+" neu acronymau eraill sy'n cwmpasu sbectrwm ehangach o rywioldeb a hunaniaethau, yn seiliedig ar y diffiniad cyfreithiol o dueddfryd rhywiol fel nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod tueddfryd rhywiol yn cwmpasu ystod ehangach o rywioldeb na lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ac yn 2023 byddwn yn ehangu'r rhestr tueddfryd rhywiol yn ein harolwg cywain data meintiol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler offeryn cywain data meintiol wedi'i ddiweddaru Ofcom.


## Cefndir economaidd-gymdeithasol

2.14 Dechreuodd Ofcom ofyn am ddata gan ddarlledwyr ar gefndir economaidd-gymdeithasol eu gweithwyr yn 2018/19. O ganlyniad, mae bylchau data o hyd wrth i ddarlledwyr barhau i ddatblygu eu dulliau cywain data yn y maes hwn. Yn 2021-22, parhaodd data a gasglwyd i ddangos tangynrychioliaeth barhaus o bobl o rai cefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Mae'r data gweladwy diweddaraf[13] yn awgrymu bod 13% o weithwyr ar draws yr wyth darlledwr wedi mynychu ysgol breifat, o'i gymharu â meincnod y DU o 7%, a bod gan 62% o weithwyr rieni mewn galwedigaeth broffesiynol pan oeddent yn 14 oed, o'i gymharu â meincnod y DU o 33%. Roedd y dangynrychioliaeth hon o bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol hefyd yn wir yn y rhan fwyaf o ddarlledwyr unigol a ddarparodd ddata. Mae Ffigur 4 isod yn edrych ar y darlledwyr hynny a fu'n cywain data ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn y ddau faes lle mae meincnodau poblogaeth ar gael: Galwedigaeth rhieni pan yn 14 oed a'r math o ysgol a fynychwyd. O'r wyth darlledwr, ni fu i Bauer a Global gywain data ar y nodweddion hyn yn 2021-22.

**Ffigur 4: Cefndir economaidd-gymdeithasol yn 2021/22 - Radio**




[13] Gan fod y bylchau yn y data ar gefndir economaidd-gymdeithasol mor fawr, ar gyfer y nodwedd hon yn unig rydym yn parhau i adrodd ar ffigurau fel canran o'r rhai a ddarparodd wybodaeth (yn hytrach nag fel canran o'r gweithlu diwydiant perthnasol yn ei gyfanrwydd). Efallai y bydd hyn yn caniatáu i ni ddarparu darlun mwy cywir o gyfansoddiad tebygol y diwydiant, ond dim ond golwg rhannol a ddarperir.




## Amrywiaeth ddaearyddol yn y BBC (Gwasanaeth Cyhoeddus y DU)

2.15 Am y tro cyntaf eleni, gallwn gyhoeddi rhywfaint o ddata gweithlu amrywiaeth wedi'i ddadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol. Mae'r BBC wedi darparu data ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac rydym yn annog darlledwyr eraill i ddechrau gwneud yr un peth. Byddai cael data daearyddol gan amrywiaeth o ddarlledwyr yn rhoi mwy o oleuni ynghylch cyfansoddiad y gweithlu darlledu ar draws y DU ac yn caniatáu i ni nodi tueddiadau ar draws y diwydiant yn well. Gall cywain yr wybodaeth hon annog darlledwyr i archwilio amrywiadau data yn eu ffigurau a allai ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr i wahaniaethau yn yr ymagwedd at EDI mewn diwylliannau gweithle lleol. Gall hefyd helpu darlledwyr wrth asesu sut i daclo'r prinder sgiliau y mae'r diwydiant yn ei wynebu, drwy eu galluogi i nodi lle yn y DU maen nhw am ganolbwyntio eu hymdrechion i ddenu a chadw'r ystod ehangaf o ddoniau.

2.16 Mae gwybodaeth ddaearyddol 2021-22 y BBC yn dangos bod 81% o'i weithlu wedi'i leoli yn Lloegr, o'i gymharu ag 8% yn Yr Alban, 7% yng Nghymru a 4% yng Ngogledd Iwerddon. Gallwn hefyd weld bod bylchau yn y data ar gyfer y rhan fwyaf o nodweddion yn tueddu i fod yn isel ac yn gyson ar draws y DU yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu bod negeseuon y BBC ynghylch pwysigrwydd rhannu'r data hwn yn cyrraedd staff ar draws y sefydliad.

2.17 Roedd y gynrychiolaeth o fenywod a gyflogwyd ar bob lefel ar draws y BBC yn gyffredinol yn adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu ym mhob cenedl, ac eithrio Gogledd Iwerddon, lle'r oedd menywod wedi'u cynrychioli'n llai da yn y BBC nag yn y boblogaeth weithio leol (43% o'i gymharu â 49%). O ran cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ar bob lefel swydd, yn Lloegr, roedd cynrychiolaeth y BBC o grwpiau lleiafrifol ethnig yn uwch nag ar

gyfer gweithlu Lloegr yn gyffredinol (19% o'i gymharu â 16%)[14]. Yn yr Alban a Chymru, roedd cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yng ngweithlu'r BBC yn adlewyrchu cyfansoddiad pob cenedl (5%). Fodd bynnag, roedd gweithwyr anabl yn y BBC wedi'u tangynrychioli'n sylweddol ar 8% i 9% ar draws y DU; Mae hyn yn cydweddu â thueddiadau cyffredinol cynrychiolaeth anabl ar draws yr wyth darlledwr a ddarparodd ddata eleni. Yn fras, roedd cynrychiolaeth pobl 50+ oed a gyflogwyd ar bob lefel ar draws y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn adlewyrchu'r boblogaeth oedran gweithio yn y gwledydd hynny. Yng Ngogledd Iwerddon roedd staff y BBC dros 50 oed 5% yn fwy o weithlu'r BBC na'r gweithlu lleol yn ei gyfanrwydd. Ar hyn o bryd nid oes data meincnod lleol ar gael ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, ond mae data'r BBC yn dangos mai pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol a gynrychiolir fwyaf yng Ngogledd Iwerddon (26%) a lleiaf yn Lloegr (20%).

2.18 Gall cyhoeddi rhagor o ddata wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel swydd a rhanbarth roi eglurder pellach, gan gynnwys a yw prif ganolfannau cyflogaeth y BBC hefyd yn cynrychioli poblogaethau lleol. Ar ôl i ffigurau wedi'u diweddaru o'r cyfrifiadau cenedlaethol diweddar ddod i'r amlwg, dylem allu ddod i gymariaethau a chasgliadau pellach ar sail data'r BBC ar grefydd, tueddfryd rhywiol, a chefndir economaidd-gymdeithasol.[15]

[14] Meincnod: NomisWeb: Arolwg Poblogaeth flynyddol ONS. Gweithgarwch economaidd T04 yn ôl grŵp ethnig a gwlad enedigol, Ebrill 2021-Mawrth 2022.
[15] Bydd hyn yn cynnwys ffigurau o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, a Chyfrifiad 2022 ar gyfer Yr Alban.

**Ffigur 5: Data amrywiaeth yn ôl Gwlad 2021-22, Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU**[16]

| | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** |
| **Rhywedd**[17] | | | | | | | | |
| **Dynion** | 52% | 53% | 51% | 51% | 54% | 52% | 57% | 51% |
| **Menywod** | 48% | 47% | 49% | 49% | 46% | 48% | 43% | 49% |
| **Hil/ethnigrwydd**[18] | | | | | | | | |
| **Grŵp ethnig lleiafrifol** | 19% | 16% | 5% | 5% | 5% | 5% | *** | 3% |
| **Grŵp ethnig gwyn** | 77% | 84% | 93% | 95% | 93% | 95% | *** | 97% |
| **Dim data** | 1% | | 1% | | 1% | | 0.3% | |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 3% | | 2% | | 2% | | 1% | |
| **Anabledd**[19] | | | | | | | | |

[16] Noder bod cyfanswm y ffigurau ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y tabl hwn ychydig yn wahanol i gyfanswm y ffigurau ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn Atodiad 1. Mae hyn oherwydd bod gweithwyr llawrydd wedi'u hepgor o'r dadansoddiad Gwledydd hwn gan nad oes lleoliad penodol wedi'i neilltuo iddynt. Mae *** yn nodi ble mae nifer y cyflogeion yn rhy isel i'w adrodd am resymau diogelu data neu y byddai'n caniatáu cyfrifo categori arall sy'n rhy isel i'w adrodd.
[17] Meincnod: Arolwg o'r Farchnad Lafur ONS 2020.
[18] Meincnod: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (Ebr 2021-Mar 2022), pobl mewn cyflogaeth 16 i 64 oed.
[19] Meincnod: Arolwg poblogaeth blynyddol ONS. Yn economaidd weithgar, Ebrill 21 i Fawrth 22.

| | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | Meincnod | 2021-22 | Meincnod | 2021-22 | Meincnod | 2021-22 | Meincnod |
| **Anabl** | 9% | 18% | 8% | 18% | 8% | 18% | 9% | 13% |
| **Ddim yn anabl** | 85% | 82% | 86% | 82% | 86% | 82% | 88% | 87% |
| **Dim data** | 2% | | 2% | | 3% | | 1% | |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 4% | | 4% | | 3% | | 3% | |
| **Tueddfryd rhywiol** | | | | | | | | |
| **LHDTC+** | 10% | | 11% | | 6% | | 7% | |
| **Ddim yn LHDTC+** | 74% | | 76% | | 81% | | 80% | |
| **Dim data** | 8% | | 8% | | 7% | | 9% | |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 8% | | 5% | | 6% | | 4% | |
| **Oedran[20]** | | | | | | | | |
| **Dan 50 oed** | 69% | 68% | 69% | 67% | 68% | 66% | 63% | 68% |
| **50+** | 31% | 32% | 31% | 33% | 33% | 34% | 37% | 32% |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| **Crefyddol** | 39% | | 35% | | 40% | | 51% | |

[20] Meincnod: Nomisweb: Arolwg poblogaeth blynyddol ONS T01: Gweithgarwch economaidd yn ôl oedran (Ebrill 21 - Mawrth 22).

| | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** | **2021-22** | **Meincnod** |
| **Di-grefydd** | 52% | | 58% | | 52% | | 41% | |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 9% | | 7% | | 8% | | 7% | |
| **Dim data** | 0.04% | | 0% | | 0.3% | | 0.1% | |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol[21]** | | | | | | | | |
| **Dosbarth gweithiol/cefndir economaidd-gymdeithasol isel** | 20% | | 25% | | 24% | | 26% | |
| **Canolradd** | 24% | | 22% | | 21% | | 23% | |
| **Proffesiynol** | 33% | | 32% | | 36% | | 30% | |
| **Arall** | 1% | | 1% | | 1% | | 2% | |
| **Dim data** | 16% | | 14% | | 12% | | 17% | |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 6% | | 6% | | 5% | | 3% | |

[21] Swydd rhiant pan oedd y cyflogai'n 14 oed.

# A1. Tabl data cryno - darlledwyr unigol

| | Marchnad lafur/ poblogaeth y DU | Bauer | | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU | | Channel 4 | | Global | | ITV | | Paramount | | S4C | | STV | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 |
| **Rhywedd** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dynion** | 52% | 45% | 46% | 53% | 53% | 41% | 44% | 50% | 49% | 45% | 46% | 46% | 46% | 16% | 21% | 48% | 48% |
| **Menywod** | 48% | 55% | 54% | 47% | 47% | 58% | 56% | 50% | 51% | 53% | 53% | 52% | 53% | 32% | 36% | 52% | 51% |
| **Heb ei gywain/ datgelu (bwlch data)** | | 0% | 0% | 0% | 0% | 0.3% | 0% | 0% | 0% | 1% | 2% | 1% | 2% | 50% | 43% | 0% | 0.4% |
| **Menywod sy'n uwch reolwyr** | | 38% | 40% | 46% | 44% | 46% | 45% | 47% | 47% | 45% | 45% | 48% | 51% | 56% | 50% | 53% | 49% |
| **Grŵp hil** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig (GLlE)** | 13% | 7% | 7% | 15% | 13% | 18% | 17% | 15% | 13% | 13% | 12% | 25% | 21% | *** | *** | 7% | 5% |

| | Marchnad lafur/ poblogaeth y DU | Bauer | | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU | | Channel 4 | | Global | | ITV | | Paramount | | S4C | | STV | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 |
| Grwpiau Ethnig Gwyn (GEG) | 87% | 87% | 87% | 74% | 83% | 75% | 77% | 82% | 83% | 76% | 76% | 72% | 75% | *** | *** | 89% | 90% |
| Heb ei ddatgelu | | 0.5% | 0% | 3% | 3% | 1% | 1% | 2% | 2% | 3% | 4% | 2% | 2% | *** | *** | 4% | 5% |
| Heb ei gywain (bwlch data) | | 5% | 6% | 8% | 1% | 6% | 5% | 0.2% | 2% | 7% | 8% | 1% | 2% | *** | *** | 0% | 0% |
| GLIE sy'n uwch reolwyr | | *** | *** | 12% | 9% | 16% | 12% | 12% | 10% | 11% | 10% | 17% | 17% | *** | *** | *** | *** |
| **Anabledd** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Anabl | 21% | 10% | 9% | 8% | 9% | 10% | 11% | 4% | 4% | 10% | 10% | 10% | 10% | *** | *** | 11% | 9% |
| Ddim yn anabl | 79% | 68% | 56% | 78% | 85% | 75% | 76% | 91% | 89% | 77% | 76% | 73% | 64% | *** | *** | 57% | 69% |
| Heb ei ddatgelu | | 6% | 3% | 4% | 4% | 3% | 2% | 4% | 5% | 7% | 8% | 4% | 4% | *** | *** | 31% | 23% |
| Heb ei gywain (bwlch data) | | 15% | 32% | 10% | 2% | 12% | 11% | 0.4% | 2% | 6% | 6% | 13% | 22% | *** | *** | 0% | 0% |
| **Oedran** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dan 50 oed | 68% | 79% | 83% | 69% | 69% | 85% | 87% | 90% | 89% | 81% | 80% | 88% | 88% | 33% | 40% | 79% | 78% |

| | Marchnad lafur/ poblogaeth y DU | Bauer | | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU | | Channel 4 | | Global | | ITV | | Paramount | | S4C | | STV | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 | 21/22 | 20/21 |
| 50+ | 32% | 21% | 17% | 31% | 31% | 15% | 13% | 10% | 11% | 16% | 17% | 12% | 12% | 10% | 15% | 21% | 22% |
| Heb ei ddatgelu | | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 2% | 3% | 0% | 0% | 7% | 2% | 0% | 0% |
| Heb ei gywain/dim data (bwlch data) | | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 43% | 0% | 0% |
| **Tueddfryd rhywiol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Lesbiaidd/Hoyw/ Deurywiol (LHD) | 4% | 7% | 5% | 10% | 9% | 10% | 9% | 8% | 7% | 8% | 7% | 9% | 8% | *** | *** | 8% | 8% |
| Heterorywiol | 96% | 76% | 58% | 68% | 76% | 76% | 79% | 83% | 81% | 77% | 77% | 80% | 79% | *** | *** | 61% | 68% |
| Heb ei ddatgelu | | 3% | 3% | 8% | 8% | 5% | 5% | 9% | 10% | 7% | 7% | 8% | 8% | *** | *** | 31% | 24% |
| Heb ei gywain/dim data (bwlch data) | | 14% | 35% | 13% | 8% | 9% | 8% | 0.4% | 2% | 8% | 9% | 3% | 4% | *** | *** | 0% | 0% |
| **Crefydd neu gred** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Crefydd | 48% | 35% | 26% | 36% | 39% | 43% | 43% | 41% | 41% | 26% | 29% | 37% | 35% | 22% | 24% | 24% | 26% |
| Dim crefydd | 52% | 46% | 36% | 47% | 53% | 42% | 42% | 46% | 42% | 28% | 32% | 47% | 44% | 24% | 32% | 44% | 48% |

| | Marchnad lafur/ poblogaeth y DU | Bauer | | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU | | Channel 4 | | Global | | ITV | | Paramount | | S4C | | STV | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** | **21/22** | **20/21** |
| **Heb ei ddatgelu** | | 4% | 3% | 9% | 8% | 7% | 7% | 13% | 14% | 7% | 8% | 9% | 8% | 5% | 2% | 32% | 25% |
| **Heb ei gywain/dim data (bwlch data)** | | 14% | 35% | 8% | 0.07% | 9% | 8% | 0.4% | 2% | 39% | 30% | 7% | 13% | 49% | 42% | 0% | 0% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol[22]** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Mynychwyd ysgol breifat** | 7% | Dd/B | Dd/B | 13% | 14% | 16% | 16% | Dd/B | Dd/B | 13% | 13% | 12% | 11% | *** | *** | 7% | 10% |
| **Rhieni â galwedigaethau proffesiynol** | 33% | Dd/B | Dd/B | 65% | 61% | 48% | 50% | Dd/B | Dd/B | 51% | 52% | 59% | 58% | 60% | 63% | 51% | 50% |

***yn nodi lle mae nifer y gweithwyr yn rhy isel i'w adrodd at ddibenion diogelu data neu a fyddai'n galluogi cyfrifo categori arall sy'n rhy isel i'w adrodd.

[22] Golyga Dd/B na dderbyniwyd data ar gyfer y cwestiwn hwn.